**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

**COMMUNITIES SCRUTINY COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10:00AM, DYDD MAWRTH, 15 HYDREF, 2013**

**10.00AM, TUESDAY, 15 OCTOBER, 2013**

Lleoliad / Location

**YSTAFELL DWYRYD, CANOLFAN GYSWLLT, PENRHYNDEUDRAETH**

**YSTAFELL DWYRYD, CONTACT CENTRE, PENRHYNDEUDRAETH**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Ioan Hughes (01286 679780)**

IoanHughes@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd 07-10-2013

**Aelodaeth/Membership (18)**

**Plaid Cymru (9)**
Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Craig ap Iago | Annwen Hughes | Gethin Glyn Williams |
| Dilwyn Morgan | Linda Morgan | Tudor Owen |
| Caerwyn Roberts | Mandy Williams-Davies | Eurig Wyn |

**Annibynnol/Independent (4)**
Y Cynghorwyr / Councillors

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eric M. Jones | Nigel Pickavance | Angela Russell | Mike Stevens |

**Llais Gwynedd (3)**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Louise Hughes | Gruffydd Williams | Robert J. Wright |

**Llafur/Labour (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Gwynfor Edwards

**Democratiaid Rhyddfrydol / Liberal Democrats (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Stephen Churchman

**Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council – Y Cynghorwyr / Councillors Huw Edwards a / and Dewi Owen.

**RHAGLEN**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf o’r Pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf, 2013, fel rhai cywir, (copi yma – papur **melyn**)

Noder – amcan yn unig yw’r amseroedd a nodir isod

**5. CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD**

Ystyried Adroddiad Blynyddol, (2012-13), Cartrefi Cymunedol Gwynedd, (copi yma papur **gwyn**)

10:05 am – 10:50am (45 munud)

**6. ETHOL ENWEBYDD – CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD**

I ethol aelod o’r Pwyllgor Craffu hwn i fynychu cyfarfodydd Cartrefi Cymunedol Gwynedd a gynhelir bob 6 mis.

10:50 – 11:00am (10 munud)

**7. YMCHWILIAD CRAFFU – CRYNODEB SGOPIO**

Cyflwyno crynodeb sgopio ar gyfer ymchwiliad craffu – Cludiant Ôl - 16 (copi yma – papur **lelog**)

11:00 – 11:15am (15 munud)

**8. BLAEN RAGLEN WAITH CRAFFU 2013 - 2014**

Cyflwyno’r fersiwn ddiweddaraf o'r rhaglen waith (copi yma – papur **glas**).

11:15 -11:25am (10 munud)

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 9/7/13

**YN BRESENNOL** - Y Cynghorydd Eric M. Jones, (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Angela Russell, (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Craig ab Iago, Annwen Hughes, Louise Hughes, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Nigel Pickavance, Caerwyn Roberts, Gruffydd Williams, Mandy Williams-Davies.

**SWYDDOGION:** Gareth James, (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu), Ian Jones, (Uwch Reolwr Datblygol), Cerys Humphreys, (Rheolwr Datblygol Byw'n Iach), Dafydd Gibbard, (Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol), Debbie Anne Williams Jones, (Rheolwr Aelodau - Gwasanaeth Democrataidd dros dro) a Bethan Adams, (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**ERAILL A WAHODDWYD I'R CYFARFOD:** Y Cynghorydd Paul Thomas, (Aelod Cabinet – Gwynedd Iach)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Tudor Owen, Mike Stevens, Gethin Glyn Williams

**CROESO:**

Estynnwyd croeso i'r Cynghorydd Nigel Pickavance, a oedd oherwydd salwch ei ferch ddim wedi medru presenoli yng nghyfarfodydd y pwyllgor yn ddiweddar a dymunodd y Cadeirydd yn dda i'r aelod a'i deulu.

Croesawyd Bethan Adams, Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu i'w chyfarfod cyntaf.

Estynnwyd croeso i Debbie Anne Williams Jones a phenodwyd yn Rheolwr Aelodau - Gwasanaeth Democrataidd dros gyfnod absenoldeb mamolaeth Vera Jones.

**DYMUNIADAU DA:**

Dymunwyd adferiad buan i'r Cynghorydd Tudor Owen oedd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Dymunwyd yn dda i Ioan Hughes, Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu a fydd yn ymddeol mis Mawrth nesaf gan ddiolch iddo am ei waith.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir.

- Y Cynghorydd Eric Merfyn Jones yn y mater er gwybodaeth (b) (Cludiant) oherwydd bod ei wyres ddeunaw oed yn cael cludiant o Waunfawr i Ysgol Brynrefail.
- Y Cynghorydd Linda Morgan yn y mater er gwybodaeth (b) (Cludiant) oherwydd ei bod yn gweithio yng Ngholeg Meirion-Dwyfor Dolgellau.

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu, a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y mater.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 14 Mai, 2013, fel rhai cywir.

**3. DARPARIAETH RHANDIROEDD CYNGOR GWYNEDD**

a) Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet – Gwynedd Iach.

Nodwyd nad oedd strwythur penodol i'r ddarpariaeth rhandiroedd ar hyn o bryd a bod gwaith mapio yn mynd rhagddo. Yn bresennol yr Adran Eiddo oedd yn gwneud y gwaith ond byddai yn y dyfodol yn dod o dan yr uned Byw'n Iach. Nodwyd bod angen gwneud y broses yn fwy ffurfiol a bwriedir creu tudalen ar wefan y Cyngor yn amlygu'r broses a nodi pwynt cyswllt.

Cyfeiriwyd at ymweliad diweddar yr Aelod Cabinet - Gwynedd Iach a swyddogion y Cyngor â Chyngor Conwy lle gwelwyd y gwaith arbennig o sefydlu rhandiroedd yng Nghonwy. Nodwyd fodd bynnag bod arian refeniw yn mynd yn fwy prin a bod rhestr aros faith yn creu problemau.

b) Ymatebodd yr aelodau i'r adroddiad ac amlygwyd y prif sylwadau canlynol:

- Bod angen annog pobl i sefydlu rhandiroedd ond bod angen edrych ar opsiynau eraill e.e. pobl yn defnyddio eu gerddi eu hunain i dyfu;
- Bod angen amlygu pa grantiau sydd ar gael i sefydlu rhandir;
- Nodwyd bod galw am randiroedd ond nad yw'n waith hawdd. Angen edrych ar yr opsiwn i ddod a'r Cynghorau Cymuned a Thref i mewn i'r broses.
- Bod y broses o sefydlu rhandiroedd yn hir ac yn feichus a bod angen gwneud y broses yn hawdd.
- Dylid sefydlu rhandiroedd mewn ysgolion gan gynnwys y gymuned leol yn y broses er mwyn cryfhau'r cyswllt cymunedol.
- Dylid edrych ar yr opsiwn o gydweithio efo Cartrefi Cymunedol Gwynedd gan ddod a thir diwerth yn ôl i ddefnydd.
- Bod rhandiroedd yn ganmoladwy ond yn yr hinsawdd economaidd bresennol lle mae arian yn brin, nid oedd yn flaenoriaeth uchel a bod angen pwyso a mesur os byddai darn o dir yn cael ei ddefnyddio orau gan adeiladu tai neu wrth greu rhandiroedd.
- Dylid bod yn ofalus iawn wrth sefydlu rhandir bod awydd yn dod o'r gymuned i'w sefydlu a dylid hybu partneriaeth efo mudiadau neu gymdeithasau eraill.
- Bod angen darganfod tir addas sydd o ansawdd ar gyfer sefydlu rhandiroedd i sicrhau eu bod yn ffynnu.
- Gwelir manteision meddyliol a corfforol i bobl sydd yn gweithio ar randiroedd.
- Bod angen cychwyn diddordeb a hybu pobl i sefydlu rhandiroedd.

(i) Nododd yr aelod lleol bod 12 rhandir yn Harlech gyda rhestr aros amdanynt. Amlygwyd bod grant ar gael gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri o dan y cynllun CAE (Cronfa Arbrofol Eryri) i gefnogi prosiectau sydd yn helpu i wella ansawdd bywyd yn y Parc Cenedlaethol.

(ii) Nododd yr Aelod Cabinet mai'r bwriad yw i'r Cyngor roi cefnogaeth strategol i bobl sefydlu rhandiroedd. Cyfeiriodd at gynllun ym Mlaenau Ffestiniog 'O'r llechen i'r Blât' sydd yn addysgu pobl gan edrych ar bob agwedd efo bwyd fel tyfu, bwyd gwyllt a choginio. Pwysleisiwyd bod angen edrych ar bob agwedd sydd yn ymwneud â bwyd er mwyn cael y budd gorau.

(iii) Ychwanegodd y Rheolwr Datblygol Byw'n Iach bod mudiad trydydd sector (o dan arweinyddiaeth y Fforwm Bwyd a Maeth), yn rhoi cais mewn i wahanol ffynonellau grantiau, er mwyn ceisio cael Swyddog Bwyd Cynaliadwy i'r Sir. Pwrpas y swydd yma byddai symud gwaith Siarter Fwyd Gwynedd ymlaen, a bydd rhan o hwn yn cynnwys hybu unigolion i dyfu llysiau a ffrwythau adref.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Aelod Cabinet – Gwynedd Iach y dylid:**

**a) Ymgymryd â'r gwaith o fapio lleoliadau addas ar fyrder ac i gynnwys asesiad o raddio'r tir fel rhan o'r gwaith.**

**b) Bod y Rheolwr Byw'n Iach yn:**

- **i) Hyrwyddo'r wybodaeth am y person cyswllt sy'n cefnogi rhandiroedd o fewn y Cyngor yn eang**
- **ii) Y person cyswllt i ddelio gyda'r Uned Eiddo ar ran y Cwsmer (grŵp allanol) ac i gadw'r broses yn syml i'r grŵp**
- **iii) Aelod Cabinet i gadw trosolwg i sicrhau rhediad esmwyth y ceisiadau a phrosesu ceisiadau'n brydlon.**

**c) Hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd i hybu unigolion, teuluoedd a grwpiau i '*wneud y pethau bychain*' fel tyfu ychydig o lysiau mewn lleoliadau bychain sy'n cynnig eu hunain**

**ch) Gweithio gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd a phartneriaid eraill i gefnogi tenantiaid a grwpiau cymunedol i ddatblygu llecynnau posibl i dyfu llysiau.**

**4. CYNLLUN NOFIO AM DDIM**

a) Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet – Gwynedd Iach gydag Uwch Reolwr Datblygol hefyd yn bresennol.

Nodwyd fod y Cyngor yn derbyn grant o £149,441 gan y Cynulliad yn flynyddol ar gyfer darparu'r cynllun Nofio am Ddim i blant ac oedolion dros 60 oed. Amlygwyd y ddarpariaeth sydd ar gael yng Ngwynedd a chyfeiriwyd at y ffaith bod niferoedd nofio am ddim yn gostwng.

'Roedd y Cyngor yn arloesol yn 2004/05 gan gynnig mynediad am ddim i rieni plant o dan 8 oed i'r sesiynau nofio am ddim, yr unig Gyngor yng Nghymru i gynnig hyn. Ond yn 2008/09 tynnwyd y ddarpariaeth yn ôl fel rhan o'r cynllun arbedion £16 miliwn gan fod y cynllun yn costio £30,000.

b) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau ac i ofyn cwestiynau. Ymatebodd yr Aelod Cabinet a'r swyddog yn briodol a gwnaed y prif bwyntiau canlynol -

- Mynegwyd pryder gan aelod bod pobl llai ffodus oherwydd newid yn y polisi yn cael eu hamddifadu.
- Nodwyd nad yw cynllun nofio am ddim y Llywodraeth yn cyfarch ffactorau incwm nac anabledd ac nid yw'r polisi ffioedd presennol yn ogystal yn cymryd hyn i ystyriaeth.
- Dylid edrych ar y polisïau strwythur ffioedd yng nghyd-destun incwm rhieni ac anabledd.
- Nodwyd bod trafodaeth genedlaethol yn mynd rhagddo ynglŷn â newid ffocws, yn lle rhoi pwyslais ar y niferoedd sydd yn nofio edrych ar yr effaith ar y plentyn gan wneud y defnydd gorau o'r arian. Ychwanegwyd bod rhai cynghorau eisiau lleihau y ddarpariaeth am ddim i oedolion dros 60 oed a throsodd er mwyn targedu rhieni plant.
- Cyfeiriwyd at y graff oedd yn dangos niferoedd plant oedd yn nofio am ddim yn disgyn. Nododd yr Uwch Reolwr Datblygol bod orddarpariaeth wedi bod yn y gorffennol a oedd yn golygu nad oedd incwm yn cael ei adennill ac er y gostyngiad bod y Cyngor yn darparu mwy na'r isafswm a mwy na siroedd eraill.
- Pwrpas y cynllun yw gwella ansawdd nofio'r plant ac mae'r gwersi strwythuredig yn targedu'r plant sydd angen y mwyaf o gymorth.
- Nodwyd yn 2006/07 'roedd 50% o blant yn medru nofio a bod gan y Cyngor darged o 83% o blant yn medru nofio blwyddyn yma a tharged o 100% yn medru nofio erbyn 2020.
- Bod amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu cynnig yn cynnwys snorclo a caiacio a hybir plant i gymryd rhan yn y gweithgareddau yma allan yn yr awyr agored hefyd.

- Yng nghyswllt y sesiynau strwythuredig nodwyd bod mwy o blant yn mynychu pan godwyd tal o £1 yn hytrach na sesiynau strwythuredig nofio am ddim a bod angen edrych ar hyn.
- Bod angen edrych ar y ddarpariaeth am ddim oherwydd nad yw rhai plant yn fodlon mynd i'r gwersi strwythuredig ac eisiau mynd i'r rhai rhydd.
- Y dylid ystyried defnyddio ychydig o'r arian nofio am ddim er mwyn gostwng pris nofio ar draws er mwyn galluogi mwy o blant i fanteisio ar y ddarpariaeth.

(i) Gofynnodd aelod a oes targed ar gyfer ardaloedd lle nad oes pyllau nofio cyfagos.

Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Datblygol bod ysgolion yn cael eu cyllido i ddarparu gwersi nofio ond nad ydynt yn gallu hawlio costau teithio. Cyfeiriwyd at y syniad i edrych ar ddefnyddio pyllau symudol a bod cynllun ar y gweill yn edrych ar gost effeithlonrwydd o'u defnyddio.

(ii) Gofynnodd aelod a byddai'r adolygiad strategol i'r ddarpariaeth hamdden yn cael effaith ar y targed o 100% yn medru nofio erbyn 2020.

Mewn ymateb, dywedodd yr Aelod Cabinet bod y sefyllfa ariannol yn cael effaith ond yr amcan yw newid y ddarpariaeth bresennol er mwyn cadw'r canolfannau hamdden ar agor. Pwysleisiwyd bod yr adolygiad strategol yn mynd rhagddo.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**<u>MATERION ER GWYBODAETH</u>**

**a) CYFLEOEDD CHWARAE I BLANT**

Cyflwynwyd cefndir i'r mater gan yr Aelod Cabinet - Gwynedd Iach. Nodwyd ei bod yn fater cychwynnol a bod Swyddog Chwarae wedi ei phenodi yn y pythefnos diwethaf.

**b) CLUDIANT**

Cadeiriwyd y drafodaeth hon gan yr Is-gadeirydd.

Cytunwyd y dylai'r Cynghorwyr Louise Hughes, Caerwyn Roberts, Angela Russell a Gruffydd Williams gyfarfod â'r Aelod Cabinet perthnasol i drafod materion pellach parthed cludiant addysg ôl 16.

**<u>CYFARFOD NESAF</u>**

**PENDERFYNWYD cynnal y cyfarfod nesaf ar 15 Hydref 2013 yn Ystafell Dwyryd, Canolfan Gyswllt, Penrhyndeudraeth.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.10pm

**ADRODDIAD BLYNYDDOL (2012/13) CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD (CCG) I CYNGOR GWYNEDD**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adroddiad ar gyfer** | Gwybodaeth a thrafodaeth | | |
| **Dyddiad** | 15fed Hydref 2013 | | |
| **Eitem** | | **Papur** | |
| **Awdur** | Ffrancon Williams, Prif Weithredwr | | |
| **Pwrpas** | I gyflwyno adroddiad blynyddol CCG i Bwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd | | |
| **Goblygiadau Ariannol** | Dim yn berthnasol. | | |
| **Rheoli Risg** | Isel | | |
| **Atodiadau** | Dim | | |

**1.0 Cyflwyniad**

1.1 Fel sydd wedi ei nodi yn y Gytundeb Drosglwyddo, mae gofyn i CCG gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor yn nodi sut y mae'n rhoi'r addewidion a wnaed i denantiaid yn y Ddogfen Gynnig ar waith a sut mae'n gweithredu'r goblygiadau o dan y Gytundeb.

1.2 Dyma yw diben yr adroddiad hwn ac mae'n cynnwys gwaith CCG yn ystod ei drydedd flwyddyn o'r 1$^{af}$ Ebrill 2012 i 31$^{ain}$ Mawrth 2013.

**2.0 Sgôp**

2.1 Mae sgôp yr adroddiad yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

1. Cyflawni addewidion y ddogfen gynnig
2. Gwaith buddsoddi Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)
3. Trefniadau Ymgynghori gyda tenantiaid
4. Goblygiadau o dan y Gytundeb (Cytundebau Enwebiadau ac Asiantaeth Tai, Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Phrotocol Budd-dal Tai)
5. Protocol Aelodau Etholedig
6. Gweithio mewn partneriaeth ar eitemau tai sy'n strategol bwysig
7. Materion gweithredol eraill

Trafodir rhan fwyaf o'r pwyntiau uchod yn fanwl yn y cyfarfodydd monitro rheolaidd a gynhelir gyda'r Cyngor bob chwarter. Nid bwriad yr adroddiad hwn yw ail adrodd y lefel o fanylder sydd wedi ei gyflwyno yn flaenorol ond yn hytrach crynhoi prif lwyddiannau yn ystod y cyfnod ac amlygu meysydd o fewn ein gweithgareddau na fu mor llwyddiannus ac yr oeddem yn ei ddisgwyl a rhoi gwybod i aelodau am heriau sy'n ein hwynebu yn ystod y flwyddyn nesaf.

**3.0 Cyflawni addewidion y ddogfen gynnig**

3.1 Roedd y Ddogfen Gynnig i denantiaid "Eich Cartref, Eich Dewis" yn cynnwys 170 o addewidion. Ar y 31$^{ain}$ Mawrth 2013, roedd 116 (69%) o addewidion wedi eu cyflawni yn llwyddiannus gyda'r gweddill ar y llwybr cywir i'w cyflawni erbyn 2015.

3.2 Prif lwyddiannau:

1. Sefydlogi darparwyr gwasanaeth CCG yn llwyddiannus wedi sicrhau bod cynnydd tuag at gyflawni SATC yn parhau ar y llwybr cywir ar gyfer 2015. Bu i CCG barhau i sicrhau bod y rhaglen wella SATC yn darparu cyfleoedd ar gyfer llafur lleol a hyfforddiant. Ar y 31ain Mawrth 2013, roedd 65% o'r llafur a gyflogwyd ar y rhaglen fuddsoddi yn byw yng Ngwynedd a 89% yn byw yng Ngogledd Cymru.
2. Mae'r uned Recriwtio a Hyfforddiant wedi ei Dargedu a grëwyd fel rhan o'r ymrwymiad i sicrhau bod y rhaglen wella SATC yn darparu cyflogaeth a chyfleoedd hyfforddi i bobl leol, wedi derbyn cydnabyddiaeth genedlaethol drwy ennill Gwobr Sefydliad Tai Siartredig (Cymru). Mae gwaith yr uned wedi bod o gymorth i hwyluso cyflogi 64 o hyfforddai gan gynnwys 45 prentis ar y rhaglen SATC erbyn diwedd Mawrth 2013.
3. Mae pob darparwr gwasanaeth CCG bellach wedi derbyn y cysyniad o roi rhywbeth sylweddol yn ôl i'r gymuned gyda dros 40 o gynlluniau budd cymunedol wedi eu darparu ganddynt.
4. Mae CCG wedi ymgynghori yn effeithiol gyda phrydleswyr ar y rhaglenni gwaith a fydd yn effeithio arnynt gan gynnig cefnogaeth a chymorth ar ddeall y costau a fydd yn cael eu creu o ganlyniad i welliannau ar eu heiddo.
5. Bu i Gronfa Budd Cymunedol CCG gefnogi 44 o sefydliadau cymunedol i ddatblygu amryw o brosiectau yn ardal Gwynedd - cyfanswm y grant a roddwyd gan CCG oedd £284,606. Roedd hyn o gymorth i'r sefydliadau sicrhau buddsoddiad pellach o £2.1miliwn yn y prosiectau cymunedol drwy 'arian cydgyfeiriant'.
6. Mae'r prosiect Gwasanaethau Cwsmer wedi bod o gymorth i wella'r ffordd y mae CCG yn ymdrin â thenantiaid sydd dewis cysylltu dros y ffôn. Arweiniodd y prosiect at greu Canolfan Alwadau integredig lle mae aelodau o'r tîm wrth law i ymateb i geisiadau gan denantiaid am wasanaethau ac ymholiadau. Targed y tîm dros y tair blynedd nesaf yw ymdrin â 90% o ymholiadau ar y pwynt cyswllt cyntaf. Hefyd yn ystod y flwyddyn fel rhan o'r prosiect mae 94% o staff CCG wedi mynychu hyfforddiant Gwasanaethau Cwsmer a oedd yn seiliedig ar y brif neges o "Gadw at ein Gair"
7. Yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o drefniadau Iechyd a Diogelwch CCG, mae CCG bellach wedi rhoi system Iechyd, Diogelwch, Ansawdd a'r Amgylchedd (IDAA) gynhwysfawr ar waith sydd wedi ei gynllunio i reoli materion iechyd, diogelwch ac amgylcheddol yn well ac i sicrhau cysondeb ac ansawdd yn ein holl brosesau.
8. Bu i'r Bwrdd gomisiynu ymgynghorwyr allanol i gynnal adolygiad o'r Gwasanaeth Cynnal a Chadw. Arweiniodd hyn at ddatblygu dadansoddiad o opsiynau ar ddyfodol y gwasanaeth allweddol hwn. Yna bu i'r Bwrdd gytuno ar gynnal prosiect trawsnewid er mwyn dod a gwelliannau cynhwysfawr i'r gwasanaeth drwy adolygu'r strwythur a ffordd o reoli a mewnblannu diwylliant a gaiff ei arwain gan berfformiad o fewn y gwasanaeth.
9. Bu rhoi'r Gofrestr Tai Cyffredin ar waith mewn partneriaeth â darparwyr Tai Cymdeithasol lleol eraill a'r Awdurdod Lleol olygu bod cyfrifoldeb am reoli'r Gofrestr Tai (Rhestr Aros) yn cael ei drosglwyddo i'r Tîm Opsiynau Tai newydd a gaiff ei weithredu gan Cyngor Gwynedd.
10. Bu i'r ymarfer proffilio tenantiaid cyntaf gael ei gwblhau yn llwyddiannus, mae gan CCG data proffil bellach ar gyfer tua 70% o'i denantiaid. Caiff y data hefyd ei ddefnyddio i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu teilwra yn unol ag

anghenion tenantiaid. Mae hefyd wedi ei ddefnyddio i adnabod y tenantiaid hynny a gaiff eu heffeithio fwyaf gan y Ddeddf Diwygio Lles.

3.3 Heriau o'n blaen yn y flwyddyn nesaf:

1. Cynyddu allbynnau'r rhaglen buddsoddi SATC i'r lefelau gofynnol i sicrhau bod yr addewidion a wnaed yn cael eu cyflawni.
2. Cadw staff allweddol sydd wedi eu cyflogi ar gytundebau cyfnod penodol o fewn y rhaglen SATC
3. Parhau i roi newidiadau ar waith yn y rhaglen newid i sefydlu diwydiant atebol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer o fewn y sefydliad.
4. Rhoi'r newidiadau gofynnol ar waith yn y Gwasanaeth Trwsio, Cynnal a Chadw a mewnblannu diwylliant sy'n canolbwyntio ar y cwsmer a gaiff ei arwain gan berfformiad.
5. Cyrraedd achrediad ar gyfer y system IDAA.
6. Gwella perfformiad o ran amser troi tai i'w gosod a chostau eiddo gwag.
7. Cynhyrchu strategaeth ddatblygu sy'n diffinio dyhead CCG tuag at Adeiladu Tai Newydd o fewn cyfamodau'r cynllun busnes.

**4.0 Gwaith buddsoddi Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)**

4.1 Bydd Aelodau yn cofio bod CCG wedi mabwysiadu strategaeth caffael arloesol lle mae cyfanswm gwaith buddsoddi SATC wedi ei rannu i ddwy ran; oddeutu 50-60% yn cael ei dendro o dan reolau caffael OJEU ac yn debygol o ddenu prif gontractwr i reoli'r gwaith a 40-50% yn cael ei dendro o dan drefniadau mwy traddodiadol heb ddilyn ffordd OJEU oedd yn debygol o ddenu mwy o gwmnïau lleol (SME). Roedd pob cytundeb yn cynnwys egwyddorion 'i2i Can Do Toolkit' i Dargedu Recriwtio a Hyfforddi i uchafu'r budd o'r buddsoddiad sylweddol hwn mewn tai i'r economi leol drwy ddarparu swyddi newydd, cyfleoedd hyfforddi a chyfleoedd i fusnesau lleol wrth gyflawni rhaglen SATC.

O ran tendr OJEU y prif gontractwr, penodwyd LovellPartnership ar gyfer 50-60% o'r gwaith ar Raglenni Mewnol ac Allanol a 40-50% yn mynd i Gontractwyr Llafur. O'r Contractwyr Llafur gwreiddiol a benodwyd, mae GM Jones a Falconer yn parhau i weithio ar waith mewnol, EWE a Gelli Civil Engineering ar waith allanol a PH Jones ar y rhaglenni gwresogi. Cytundebau llafur yn unig yw'r Cytundebau hyn ac mae Symphony a TravisPerkins yn parhau i gyflenwi ceginau a deunyddiau i CCG.

4.2 Bu sefydlogi Darparwyr Gwasanaeth CCG yn ystod y flwyddyn olygu bod llawer iawn mwy o waith buddsoddi ar y safle gyda gwariant cyfalaf o £28.8m o'i gymharu â £16.7m yn y flwyddyn weithredu flaenorol. Er bod hyn yn gynnydd o £12.1m ar wariant y flwyddyn flaenorol roedd yn parhau i fod yn £4.7m yn llai na'r gwariant a raglenwyd a rhoddir rhesymau am y diffyg gwariant yn rhan 4.6 o'r adroddiad hwn.

4.3 Mae Tabl 1 isod yn nodi Darparwyr Gwasanaeth CCG, y math o waith o fewn eu cytundebau a chynnydd hyd at 31 Mawrth 2013 o dan yr archebion tasg perthnasol. Dylai aelodau nodi bod gwaith yn cael ei roi i Ddarparwyr Gwasanaeth o dan y gytundeb mewn sypiau o fewn archebion tasg a bod dyddiad cwblhau ar gyfer yr archebion tasg yn amrywio a ddim o reidrwydd yn cyd-fynd â diwedd y flwyddyn ym

mis Mawrth. Gellir rhoi archebion tasg pellach i Ddarparwyr Gwasanaeth os yw eu perfformiad yn foddhaol.

**Tabl 1: Darparwyr Gwasanaeth CCG**

| Pecyn Gwaith | Contractwr | Eiddo wedi cwblhau | % Archeb Tasg wedi cwblhau ar y 31/03/13 | Datganiad o Safle |
|---|---|---|---|---|
| Ffenestri & Drysau | Nationwide | 3,847 | 98% | Cynnydd boddhaol Rhaglen yn cael ei chwblhau Mehefin 2013 |
| Prif Raglen Fewnol | Lovell | 1383 | 71% | Cynnydd boddhaol Rhaglen yn cael ei chwblhau Medi 2014 |
| Prif Waith Allanol | Lovell | 294 | 31% | Cynnydd boddhaol Rhaglen yn cael ei chwblhau Medi 2013 |
| Gwresogi | Lovell | 545 | 100% | Rhaglen wedi ei chwblhau ond yn ddarostyngedig i addasiadau i'r Cyfrif Terfynol |
| Insiwleiddio Llofft | Lovell | 2,682 | 84% | Cynllun 'mop up' yn cael ei gynllunio ar hyn o bryd ar gyfer y 16% sydd ar ôl |
| Llafur Mewnol | G M Jones | 769 | 71% | Cynnydd boddhaol Rhaglen yn cael ei chwblhau Mawrth 2014 |
| Llafur Trydan | FalconerElectricals | 618 | 53% | Cynnydd boddhaol Rhaglen yn cael ei chwblhau Mawrth 2014 |
| Llafur Gwresogi | PH Jones | 747 | 64% | Cynnydd boddhaol Rhaglen yn cael ei chwblhau Medi 2013 |
| Llafur Toi a waliau | Evans Wilson & Evans | 391 | 84% | Cynnydd boddhaol Rhaglen i'w cwblhau ym mis Mehefin 2013 |
| Llafur Ffensio Waliau a Phafin | Gelli Civil Engineering | 755 | 74% | Cynnydd boddhaol Rhaglen i'w cwblhau ym mis Ebrill 2013 |
| Cadwyn Cyflenwi Yst Ymolchi a Deunydd | TravisPerkins | 3,280 | 100% | Cynnydd boddhaol Nawr yn cyflenwi ar gyfer rhestr cyfeiriadau 2013/14 |
| Cadwyn Gyflenwi Ceginau | Symphony | 2,152 | 100% | Cynnydd boddhaol Nawr yn cyflenwi ar gyfer rhestr cyfeiriadau 2013/14 |

4.4 Mae Tabl 2 isod yn dangos cydymffurfiaeth CCG gyda SATC yn ôl elfennau ar 31ain Mawrth 2013. Dyma'r ffigyrau sy'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru fel rhan o'u trefniadau monitro SATC blynyddol. Fel mae rhaglen buddsoddi SATC yn mynd ymlaen, bydd lefel cydymffurfio yn cynyddu yn naturiol.

**Tabl 2: Stoc sy'n cydymffurfio â SATC yn ôl yr elfen, ar 31ain Mawrth 2013**

| | Elfen | Stoc ar y 31/03/2013 | Stoc yn cydymffurfio'n llawn * yn ôl elfen ar 31/03/2013 | Stoc yn cydymffurfio* yn ôl elfen yn amodol ar "methiannau derbyniol" ar 31/03/2013 | Stoc Ddim yn cydymffurfio * yn ôl elfen | Canran o gydymffurfiaeth / cydymffurfiaeth gyda "methiannau derbyniol" ar gyfer yr elfen | Blwyddyn disgwylir cydymffurfiaeth lawn ar gyfer holl stoc ar gyfer yr elfen |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Toeau a chydrannau | 6291 | 3705 | 3 | 2583 | 59% | 2015 |
| 2. | Ffenestri | 6291 | 6257 | 8 | 26 | 100% | 2013 |
| 3. | Drysau Allanol | 6291 | 6067 | 28 | 196 | 97% | 2013 |
| 4. | Ceginau | 6291 | 3115 | 421 | 2755 | 56% | 2015 |
| 5. | Ystafelloedd Ymolchi | 6291 | 3017 | 418 | 2856 | 55% | 2015 |
| 6. | Cyfradd SAP≥ 65 | 6291 | 1688 | 0 | 4603 | 27% | 2015 |
| 7. | Systemau Gwres Canolog | 6291 | 5208 | 346 | 737 | 88% | 2015 |
| 8. | Systemau Trydanol | 6291 | 3296 | 300 | 2695 | 57% | 2015 |
| 9. | Canfodyddion Tân trydanol | 6291 | 5740 | 75 | 476 | 92% | 2015 |
| 10 | Gerddi a storfa allanol hyd at ac yn cynnwys ffin yr eiddo | 6291 | 2081 | 32 | 4178 | 34% | 2015 |

*=dylai eiddo sy'n cydymffurfio gynnwys unrhyw eiddo lle nad yw elfen benodol o SATC yn berthnasol ac felly ddim wedi ei asesu

4.5 Prif lwyddiannau:

1. Bu i lansiad llwyddiannus system IDAA CCG gynyddu proffil Iechyd, Diogelwch, Ansawdd a'r Amgylchedd gyda holl staff SATC a darparwyr gwasanaeth.

2. Mae gallu contractwyr bellach wedi dod i'w le gyda'r Darparwyr Gwasanaeth sy'n parhau gyda ni wedi eu llawn sefydlu gyda CCG (ac yn cyflawni cyfaint da o waith ac yn perfformio) fel a ganlyn:

| Cytundeb | Mewnol | Allanol | Ffensio / Llwybrau | Gwresogi |
|---|---|---|---|---|
| Prif | Lovell | Lovell | D/B | D/B |
| Llafur | GM Jones / Falconers | EWE | Gelli | PH Jones |
| Cyflenwi | TP / Symphony | TravisPerkins | TravisPerkins | TravisPerkins |

3. Mae'n werth nodi bod y canlynol wedi ei gwblhau ym mlwyddyn ariannol 2012/13 gan Ddarparwyr Gwasanaeth CCG:

   - Bu i wariant SATC ar waith Mewnol a Gwresogi ar gyfer 2012/13 gynyddu o 46% o gymharu â'r un cyfnod llynedd a olygodd bod y canlynol wedi eu cwblhau yn y cyfnod.

     a. 1,678 o geginau wedi eu gwella
     b. 1,710 o ystafelloedd ymolchi wedi eu gwella
     c. 1,220 o systemau gwresogi wedi eu gosod
     d. 1,474 wedi ail weirio

   - Ar y 31 Mawrth 2013, roedd 426 o weithwyr yn gweithio ar y rhaglen SATC ac o'r gweithwyr hyn:

     a. 379 (89%) yn byw yng Ngogledd Cymru
     b. 278 (65%) yn byw yng Ngwynedd
     c. 287 (67%) yn siaradwyr Cymraeg
     d. 64 yn Hyfforddai gan gynnwys 45 Prentis

4. Bellach mae yna dros 40 Cynllun Buddsoddi Cymunedol wedi bod o wahanol raddfa a gwerth.
5. Mae lefelau boddhad Tenantiaid gyda gwaith SATC yn uchel gyda dros 86% o denantiaid yn fodlon gyda gwaith yn 2012/13.
6. Mae’r buddsoddiad mewn cyfleoedd recriwtio a hyfforddi yn parhau i fod yn llwyddiant, gyda 64 o hyfforddai yn gweithio ar draws y cynlluniau gan gynnwys 45 prentis, dyma'r wybodaeth fel ag yr oedd ar 31ain Mawrth 2013.
7. Mae'r broses Cadwyn Gyflenwi wedi ei fewnblannu yn llawn gyda TravisPerkins yn cyflenwi ystafelloedd ymolchi a deunyddiau ar gyfer y rhaglen SATC a'r gwasanaeth Trwsio, Cynnal a Chadw a Symphony yn parhau i gyflenwi Ceginau gan gyrraedd lefelau perfformio uchel.
8. Trwy eu rhan yn Fforwm Tenantiaid SATC, mae tenantiaid yn parhau i gymryd rhan lawn ym mhob penderfyniad strategol yn ymwneud â’r rhaglen buddsoddi SATC.

4.6 Pethau na aeth cystal:

1. Roedd y lefel o ddim mynediad i eiddo a thenantiaid yn gwrthod gwaith yn parhau i fod yn broblem.
2. Roedd recriwtio i swyddi allweddol ar yr ochr Asedau a Buddsoddi eto yn broblemus er gwaethaf sawl ymgais i lenwi swyddi. Roedd sawl swydd heb eu llenwi am gyfnod yn 2012/13 ond bellach mae bron i bob swydd wedi ei llenwi.
3. Nid oedd perfformiad Lovell ar lefel dderbyniol am gyfnod a stopiwyd y rhaglen oherwydd diffyg cydymffurfio o ran Rheoli Asbestos. Bu i'r rhaglen ail gychwyn ar ôl gwerthusiad llawn a derbyn ymarferion gweithio wedi eu hadolygu ganddynt.
4. Cychwyn gwaith wedi bod yn araf ac ail raglennu gwaith allanol, eiddo anhraddodiadol a rhaglen Maes Barcer gyda Lovell.

5. Roedd cyfuniad o bwynt 1 – 4 uchod yn golygu bod llai o waith yn cael ei wneud nag oedd wedi ei raglennu, oedd yn golygu diffyg o £4.7m yng ngwariant y rhaglen.
6. Mae amser trosi eiddo gwag er mwyn eu hatgyweirio i SATC wedi bod yn hirach na'r disgwyl am sawl rheswm.

4.7 Heriau o'n blaen yn y flwyddyn nesaf:

1. Cyflawni targed gwariant 2013/14 a sicrhau rheolaeth dynn o gytundebau i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni o fewn cyfyngiadau'r cynllun busnes.
2. Cyrraedd achrediad ar gyfer y system IDAA.
3. Cadw staff allweddol o fewn y rhaglen SATC sydd wedi eu cyflogi ar gytundebau cyfnod penodol. I'r perwyl hwn, ymdrin â'r cyfle a ddaw yn sgìl trawsnewid y Gwasanaeth Trwsio, Cynnal a Chadw o ran staff yn symud a sicrhau bod y bylchau mewn adnoddau yn cael eu hadnabod a'u llenwi.

## 5.0 Trefniadau Ymgynghori gyda tenantiaid

5.1 Mae fframwaith newydd ar gyfer ymgynghori gyda tenantiaid a phreswylwyr wedi parhau i ddatblygu yn ystod y flwyddyn gyda phob fforwm wedi ei sefydlu ac yn cyfarfod yn rheolaidd.

Yn ystod y flwyddyn cynyddwyd rôl ac aelodaeth y fforymau fel yr oeddynt yn cymryd mwy o ran wrth wneud penderfyniadau allweddol a dylanwadu ar ddatblygu gwasanaethau CCG.

1. **Partneriaeth Tenantiaid a Phreswylwyr -** Gwelodd aelodau bod eu rôl fel y prif gorff o denantiaid yn dod yn bwysicach a'u bod yn chwarae rhan allweddol wrth ddylanwadu polisïau a gweithdrefnau allweddol a oedd yn cael eu datblygu neu adolygu yn ystod y flwyddyn .

2. **Fforymau Tenantiaid** sy'n cynnwys:

   2.1 **Fforwm SATC -** aelodau'n parhau i weithio'n agos gyda CCG ym mhob agwedd o'r rhaglen fuddsoddi ac yn monitro perfformiad contractwyr. Mae'r fforwm yn cyfarfod yn fisol ac mae aelodau wedi mynychu ymweliadau safle ac wedi craffu sawl adroddiad a pholisi.
   2.2 **Fforwm Gwasanaethau Cwsmer o Safon -** yn edrych ar wasanaethau unigol i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar anghenion y cwsmer. Yn ystod y flwyddyn, bu i aelodau graffu a chael cyfle i ddatblygu a siapio polisïau a gweithdrefnau amrywiol cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Bwrdd.
   2.3 **Fforwm Budd Cymunedol -**sicrhau bod gweithgareddau CCG yn gweithio tuag at gyrraedd y nod o wella cymunedau. Mae'r Fforwm wedi chwarae rhan allweddol wrth sefydlu Cronfa Budd Cymunedol CCG ac yn parhau i fonitro ei gynnydd a'i berfformiad.
   2.4 **Fforwm Cyfathrebu** – yn edrych ar holl gyfathrebu gyda tenantiaid gan gynnwys y newyddlen, llythyrau, cynnwys y safle we a thaflenni gwybodaeth. Y Fforwm oedd yn gyfrifol am adolygu ac ail-ddylunio y newyddlen tenantiaid ac wedi cyfrannu sawl erthygl i'r dudalen 'llais tenantiaid'

2.5 **Grŵp Cynnal a Chadw** - yn edrych yn benodol ar y gwasanaeth cynnal a chadw. Dyma'r grŵp lle gwelwyd y lleiaf o weithgaredd yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, datblygwyd rhaglen waith i adolygu'r rhaglen tenant archwilwyr a fydd yn cael ei roi ar waith yn ystod 2013/14 yn dilyn ail strwythuro'r Tîm Trwsio.

3. **Panel Cwsmer** - nid yw mynychu cyfarfodydd at ddant pawb, felly sefydlwyd y panel hwn i roi cyfle i denantiaid gael dweud eu dweud o'u cartrefi eu hunain, dros y ffôn, drwy e-bost neu drwy holiaduron byr. Mae'r panel wedi mynd o nerth i nerth. Erbyn diwedd mis Mawrth, roedd dros 150 o denantiaid yn aelodau o'r panel a chynyddodd yr aelodaeth i dros 200 erbyn Medi 2013 ac mae CCG yn ymgynghori gyda nhw yn chwarterol. Pynciau ymgynghori diweddar oedd Gofal Cwsmer, Cyfathrebu ar waith gwella SATC, Torri Gwair a Chytundebau Glanhau Cymunedol a chynnig gwasanaeth trwsio bore Sadwrn.

4. **Syrjeris** - mae nifer o syrjeris lleol a gaiff eu cynnal gan ein wardeniaid cymunedol yn parhau i roi cyfle i denantiaid siarad gyda rhywun am unrhyw beth sydd yn eu pryderu.

5. **Cyfranddalwyr -** gwahoddwyd y cyfranddalwyr i Gyfarfod Blynyddol CCG ym mis Medi 2012. Mae gan bob tenant yr hawl i ddod yn gyfranddaliwr ac i bleidleisio yn y cyfarfod. Fel ag ar ddiwedd Mawrth 2013, mae gan CCG gyfanswm o 45 o gyfranddalwyr - gyda datblygiad y Ddewislen Cyfranogi mae disgwyl i'r ffigwr gynyddu yn ystod y flwyddyn nesaf.

5.2 Prif lwyddiannau:

1. **Strategaeth Cyfranogi Tenantiaid Lleol 2012-15** - Yn 2012 lansiodd CCG ei Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol (SCTLl) cyntaf ar gyfer 2012-2015. Datblygwyd y strategaeth gan y Grŵp Llywio SCTLl a oedd yn cynnwys tenantiaid, preswylwyr, cynrychiolwyr o aelodau Bwrdd a staff CCG. Mae'r grŵp yn parhau i gyfarfod yn chwarterol i fonitro cynnydd sydd wedi ei wneud yn erbyn y cynllun gweithredu SCTLl. Un o'r prif ddatblygiadau a wnaed yn erbyn y cynllun gweithredu oedd penodi naw Hyrwyddwr Tenantiaid sy'n cynnwys staff o bob maes gwasanaeth yn CCG. Bydd yr Hyrwyddwyr Tenantiaid yn chwarae rôl hanfodol yn ein hymdrechion i brif ffrydio cyfranogiad tenantiaid ar draws y sefydliad.

2. **Cronfa Budd Cymunedol** - Yn ystod 2012/13, bu i gyfanswm o 47 grŵp dderbyn dros £280mil o grant i gefnogi gwahanol gynlluniau/prosiectau. Mae grwpiau ar draws Gwynedd wedi cael budd o'r gefnogaeth ariannol a roddwyd i ariannu prosiectau amrywiol fel cynnal digwyddiadau newydd, cyfleoedd hyfforddi, gwella cyfleusterau a chynlluniau gwelliannau amgylcheddol. Erbyn diwedd 2012/13, roedd y gronfa wedi llwyddo i ddenu dros £2.1m o fuddsoddiad ychwanegol yng Ngwynedd o adnoddau ariannol eraill gan ddarparu buddsoddiad pellach yn y sir.

3. **Hyfforddiant -** mynychodd aelodau'r Fforwm Cynhadledd Flynyddol TPAS ym mis Tachwedd 2012 ac maent wedi cymryd rhan mewn amryw o weithdai hyfforddi, er enghraifft sut i sicrhau bod cyfarfodydd yn effeithiol. Mae ein

fforymau tenantiaid a phreswylwyr wedi cymryd rhan mewn asesiad anghenion hyfforddiant a drefnwyd drwy TPAS Cymru i adnabod unrhyw anghenion hyfforddiant a chyfleon datblygu. Bydd hyn yn ei dro yn arwain at ddatblygu rhaglen hyfforddiant parhaol fydd yn galluogi staff a thenantiaid i gyflawni eu dyletswyddau fel aelodau fforwm i'w llawn potensial.

4. **Ymweld â lleoliadau newydd** - cynhaliwyd cyfarfodydd y Bartneriaeth Tenantiaid a Phreswylwyr a'r Fforymau mewn lleoliadau amrywiol ar draws Gwynedd, mewn ardaloedd gwledig a threfol. Golygai hyn bod cymryd rhan yn haws i denantiaid ar draws Gwynedd. Roedd lleoliadau yn cynnwys Bangor, Caernarfon, Pwllheli, Porthmadog, Penrhyndeudraeth a Dolgellau.

5. **Cyswllt Cymunedol** - mae CCG wedi gweithio gydag amryw o bartneriaid i gyflawni prosiectau oedd yn cynnwys cynhwysiad digidol a sesiynau cyngor ac ymwybyddiaeth ynni.
   Yn ystod 2012/13, bu i ni barhau i gefnogi'r Cynllun Wardeniaid Ifanc gan dargedu plant rhwng 9-10 oed gyda'r bwriad o wella diogelwch yn y gymuned a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymunedau.

6. **Ymarferion ymgynghori** -yn ystod mis Ionawr 2013, rhannodd CCG holiadur amgylcheddol i'w gwsmeriaid er mwyn adnabod yr angen am unrhyw welliannau yn yr ardal o amgylch eu cartrefi. Roedd yr adborth yn ein galluogi i greu rhestr fer o'r cynlluniau gwella a gynigwyd a fyddai'n cael eu gwneud o dan Raglen Welliannau Amgylcheddol SATC. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynlluniau arfaethedig gyda phreswylwyr ar bob stad drwy raglen ymweld â stadau yn ystod Haf 2013.
   Bu i CCG hefyd cynnal ymarferiad ymgynghori gyda phrydleswyr yn benodol ar ymdrin â gwaith mawr i'w heiddo a chynnwys y llawlyfr prydleswyr sy'n cael ei gynhyrchu.

5.3 Heriau o'n blaen yn y flwyddyn nesaf:

Mae'r rhain yn cynnwys cysylltu gyda grwpiau anodd eu cyrraedd a chynnal diddordeb a chyfranogiad ein haelodau presennol a chael cyfuniad da o gynrychiolwyr tenantiaid o ardaloedd ar draws y Sir. Mae CCG wastad yn ymgyrchu am aelodau newydd ac yn edrych at ddulliau gwahanol i ddenu tenantiaid a phreswylwyr i weithio gyda ni. Yn hyn o beth bydd sicrhau bod CCG yn cyflawni'r gweithrediadau wnaed o fewn y Strategaeth Cyfranogi Tenantiaid Lleol yn bwysig iawn, un o'r heriau fydd prif ffrydio cyfranogiad tenantiaid ar draws CCG.

## 6.0 Goblygiadau o dan y Cytundeb (Cytundebau Enwebiadau ac Asiantaeth Tai, Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Phrotocol Budd-dal Tai)

6.1 <u>Cytundeb Enwebiadau ac Asiantaeth Tai</u>

Daeth Cofrestr Tai Cyffredin Gwynedd i rym ar y 10fed o Fedi 2012, mae'r trefniadau o dan y Gytundeb Bartneriaeth yn disodli'r Gytundeb Enwebiad a Thai. Mae'r Tîm Opsiynau Tai yn Cyngor Gwynedd bellach yn gyfrifol am reoli'r Gofrestr Tai Cyffredin yn unol â'r Polisi Gosod Cyffredin. Bydd adolygiad cychwynnol ffurfiol yn cael ei gynnal yn ystod Hydref 2013.

6.1.1 Prif lwyddiannau:

1. Roedd gweithio mewn partneriaeth yn llwyddiannus yn sicrhau bod y Gofrestr Tai Cyffredin, Polisi Gosod Cyffredin a'r Tîm Opsiynau Tai yn llwyddiant ac mae'r berthynas waith da wedi parhau.
2. Mae perthynas waith da wedi ei chynnal gyda thîm Digartrefedd (a staff Tai eraill) yn y Cyngor ac mae CCG wedi gweithio â hwy ar eu proses "System Thinking".
3. Mae perthynas waith da hefyd wedi ei chynnal gyda Chymdeithasau Tai eraill.

6.1.2 Pethau na aeth cystal:

1. Fel y disgwyliwyd, bu i gyflwyno system newydd greu newidiadau gweithredol i bob parti oedd yn rhan ohono. Adnabuwyd y problemau hyn a byddant yn derbyn sylw drwy sesiynau hyfforddi ar y cyd yn y flwyddyn nesaf sy'n cynnwys holl aelodau'r bartneriaeth .

6.1.3 Heriau o'n blaen yn y flwyddyn nesaf:

Bydd y Gytundeb Lefel Gwasanaeth Cychwynnol yn cael ei hadolygu yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn yn cynnwys adolygu a chytuno ar allbynnau a chanlyniadau. Bydd pob partner yn gweithio yn galed iawn i sicrhau bod stoc tai Gwynedd yn cael ei osod a'i ddefnyddio yn effeithiol ac yn gwella perthnasau ymhellach i ddarparu gwasanaeth gosod effeithiol.

6.2 <u>Cytundebau Lefel Gwasanaeth</u>

Wrth drosglwyddo (12/04/10) cytunwyd ar y Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLG) canlynol rhwng CCG a'r Cyngor. Mae cyfnod cychwynnol y CLG wedi ei nodi yn y cromfachau.

1. Gwasanaethau Cynnal a Chadw Tir (2 flynedd)
2. Cefnogaeth TGCh (darparu a chefnogi Rhwydwaith Ardal Eang a Chefnogi Rhaglenni – "GeographicalInformation System" (GIS) (3 mlynedd)
3. Gwasanaethau Cyfreithiol (2 flynedd)
4. Gwasanaethau Rheoli Pla (3 flynedd)
5. Gwasanaethau'r Gyflogres (3 flynedd)
6. Gwasanaeth Archwiliadau Diogelwch Priffyrdd ar Ffyrdd heb eu mabwysiadu (3 mlynedd)
7. Gwasanaethau Cynnal a Chadw'r Fflyd (2 flynedd)
8. Gwasanaethau Archwiliadau Iechyd Amgylchedd (3 mlynedd)
9. Gwasanaethau Draeniau (2 flynedd)
10. Gwasanaethau Glanhau (2 flynedd)
11. Gwasanaeth Systemau Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) (2 flynedd)
12. Gwasanaethau Golau Stryd (3 mlynedd)
13. Gwasanaeth Warden Cymunedol (3 mlynedd)

Bu i gyfnod yr CLG hynny o 2 flynedd gael eu hymestyn am 12 mis pellach a

chrëwyd prosiect corfforaethol i adolygu pob CLG ac ail dendro fel yr oedd yn ofynnol yn ystod 2012/13.

6.2.1 Prif lwyddiannau:

1. Roedd yr holl CLG yn ddarostyngedig i werthusiad o opsiynau yn ystod blwyddyn 2012/13, ac mae'r canlyniadau hyn wedi eu crynhoi isod ar gyfer pob CLG:

    1.1 Gwasanaethau Cynnal a Chadw Tiroedd - mae trefniadau presennol gyda Cyngor Gwynedd yn parhau i fis Ebrill 2014 gyda threfniadau rheoli cleientiaid pellach wedi ei roi mewn lle

    1.2. Cefnogaeth TGCh (darpariaeth 'WideAreaNetwork' a chefnogaeth a Chefnogaeth Rhaglen - System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) - trefniadau presennol gyda Cyngor Gwynedd wedi eu hymestyn i Ebrill 2014 gyda threfniadau rheoli cleient pellach wedi ei roi mewn lle.

    1.3. Gwasanaethau Cyfreithiol - penderfyniad wedi ei wneud i ddod a Gwasanaethau Cyfreithiol yn fewnol erbyn Hydref 2013. Cyngor Gwynedd wedi cytuno i barhau i ddarparu gwasanaethau hyd at hynny.

    1.4. Gwasanaethau Rheoli Pla - trefniadau presennol gyda Cyngor Gwynedd wedi eu hymestyn am 3 mlynedd bellach i Ebrill 2016.

    1.5. Gwasanaethau'r Gyflogres - Cyngor Gwynedd wedi cael y gwasanaeth yn dilyn tendr agored am 3 mlynedd bellach i Ebrill 2016.

    1.6. Gwasanaeth Archwiliadau Diogelwch Priffyrdd ar Briffyrdd heb eu Mabwysiadu - penderfyniad wedi ei wneud i ddod a'r gwasanaethau yn fewnol o Ebrill 2013.

    1.7. Gwasanaeth Cynnal a Chadw'r Fflyd - penderfyniad wedi ei wneud i ail-dendro gwasanaethau yn ddarostyngedig i broses OJEU sydd fod i'w gwblhau erbyn Ebrill 2014. Trefniadau wedi eu cytuno gyda Cyngor Gwynedd i barhau i ddarparu gwasanaethau hyd y byddwn yn gwybod beth yw canlyniadau'r dendr OJEU.

    1.8. Gwasanaethau Archwiliadau Iechyd Amgylcheddol - nid oes angen y gwasanaeth mwyach oherwydd bod y Gofrestr Tai Cyffredin yn cael ei rhedeg gan Cyngor Gwynedd.

    1.9. Gwasanaethau Draeniau - mae trefniadau presennol gyda Cyngor Gwynedd wedi eu hymestyn i fis Ebrill 2016 gyda threfniadau rheoli cleientiaid pellach wedi ei roi mewn lle.

    1.10. Gwasanaethau Glanhau - penderfyniad wedi ei wneud i ail-dendro'r gwasanaethau. Yn dilyn proses OJEU, Cyngor Gwynedd wedi cadw cytundebau ar gyfer Dwyfor ac Arfon ond ardaloedd Bangor ac Arfon wedi eu rhoi i SuperClean.

1.11. Gwasanaethau System Teledu Cylch Cyfyng - mae trefniadau presennol gyda Cyngor Gwynedd wedi eu hymestyn am 12 mis pellach i fis Ebrill 2014 gyda threfniadau rheoli cleient pellach wedi ei roi mewn lle

1.12. Gwasanaethau Golau Stryd - mae trefniadau presennol gyda Cyngor Gwynedd wedi eu hymestyn am 3 mlynedd bellach i fis Ebrill 2016 gyda threfniadau rheoli cleient pellach wedi ei roi mewn lle

1.13. Gwasanaeth Warden Cymunedol - bu i'r CLG flaenorol gael ei osod ar CLG barhaus o 12 mis a oedd yn canolbwyntio ar oblygiadau statudol y Cyngor tuag at digartrefedd. Bu i'r pwyslais newid fel bod Wardeiniaid Cymunedol CCG yn cefnogi ymgeiswyr digartref sy'n byw mewn eiddo CCG ar sail dros dro ynghyd â monitro y 12 mis cyntaf o denantiaethau cychwynnol i roi cymorth i'r tenantiaid hynny gynnal eu tenantiaethau.

6.2.2 Pethau na aeth cystal:

1. Bu i'r adolygiad o'r CLG gymryd yn hirach na'r disgwyl gyda'r ymateb i CCG gan Cyngor Gwynedd yn cymryd hirach na'r disgwyl.

6.2.3 Heriau o'n blaen yn y flwyddyn nesaf:

1. Mae trefniadau rheoli client newydd mewn lle ar gyfer pob CLG un ai gyda darparwyr gwasanaeth newydd neu os ydym wedi ymestyn gwasanaethau gyda darparwyr presennol. Bydd angen rheoli'r trefniadau hyn a all fod yn her i CCG ac ar gyfer y darparwyr gwasanaeth o ystyried y pwyslais newydd ar reoli perfformiad.

6.3 <u>Protocol Budd-dal Tai</u>

Mae derbyn taliadau Budd-dal Tai yn brydlon yn hanfodol i lif ariannol CCG ac mae'r Protocol Budd-dal Tai yn gosod ymrwymiad ar y Cyngor a CCG i weithio gyda'i gilydd i gyflawni lefel a safonau gwasanaeth ar gyfer prosesu a gweinyddu budd-dal tai i denantiaid CCG.

6.3.1 Prif lwyddiannau:

1. CCG wedi gweithio yn effeithiol gyda'r Tîm Budd-dal Tai wrth baratoi ar gyfer cyflwyno y tâl tanfeddiannu a hefyd wedi gweithio yn agos gyda Grŵp Tasg Diwygio Lles y Cyngor.
2. Mae unrhyw ymholiad neu anghysondeb 'ad-hoc' yn derbyn ymateb prydlon
3. Perthynas gweithio da yn parhau rhwng staff CCG a'r Cyngor sy'n rhan o brosesu Budd-dal Tai, yn ogystal â'r timau Cyllid a TG.

6.3.2 Heriau o'n blaen yn y flwyddyn nesaf:

1. Y brif her yn y flwyddyn i ddod yw parhau i gadw perthynas waith dda gydag Adran Refeniw Cyngor Gwynedd ac i gysylltu gyda nhw a rhannu

gwybodaeth i ymateb i'r newidiadau pellach i Fudd-dal Tai sydd i ddod gyda mesuriadau Diwygio Lles y Llywodraeth. Mae'n bwysig sicrhau perthynas waith agos er mwyn rhagweld ac ymateb i unrhyw broblemau all godi o'r newidiadau Diwygio Lles oherwydd y risg uchel o leihad posib yn incwm CCG oherwydd y newidiadau.

2. Bydd newidiadau pellach sy'n gysylltiedig â Diwygio Lles a Chredyd Cyffredinol, newidiadau i fudd-dal Treth y Cyngor a gweithio i uchafu taliadau Buddion Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn i denantiaid CCG yn uchel ar agenda CCG yn ystod y flwyddyn nesaf.

**7.0 Protocol Aelodau Etholedig**

7.1 Bydd Aelodau yn ymwybodol o brotocol aelodau etholedig a gyflwynwyd wrth drosglwyddo fel bod yna un pwynt cyswllt o fewn CCG ar gyfer aelodau. Mae pob cais a ddaw gan aelod (ar wahân i rai o natur cynnal a chadw dydd i ddydd) yn cael eu cofnodi, eu gweithredu a'u monitro o fewn CCG gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth gwell a mwy ymatebol i aelodau.

7.2 Prif lwyddiannau:

1. Adnabuwyd yn wreiddiol fod y protocol aelodau yn cael ei reoli yn effeithiol o ran ymdrin gydag ymholiadau a darparu adborth. Fodd bynnag mae wedi bod yn her ceisio ymateb i bob ymholiad i sicrhau fod addewidion a threfniadau yn cael eu cadw. Er mwyn gwella ar hyn, darparwyd adnoddau ychwanegol ac mae CCG bellach mewn gwell sefyllfa i ymdrin ag ymholiadau a bod yn fwy effeithiol wrth ddiweddaru aelodau.
2. Caiff gwybodaeth rheoli werthfawr ei ddarparu drwy'r ymholiadau a gyflwynir gan aelodau. Caiff y wybodaeth hon ei thrafod yn rheolaidd ar lefel rheolwyr a'i defnyddio i adnabod meysydd sy'n codi pryder a sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu a bod gweithrediadau yn cael eu rhoi mewn lle i sicrhau gwella gwasanaeth ar draws y cwmni.
3. Mae CCG yn ddiweddar wedi rhoi system ar waith sy'n galluogi swyddogion i gofnodi galwadau ffôn gyda chwsmeriaid. Bydd hyn yn gwella'r ffordd mae CCG yn cofnodi a monitro cyswllt gydag aelodau.

7.3 Pethau na aeth cystal:

1. Sefydlwyd y Gofrestr Tai Cyffredin ym mis Medi 2012 ac roedd yna ddryswch cychwynnol ynglŷn â phwy oedd yn gyfrifol am beth a lle y dylid cyfeirio ymholiadau. Mae hyn wedi gwella yn fawr a dylai wella ymhellach gyda'r digwyddiadau hyfforddi ar y cyd sydd wedi eu cynllunio ar gyfer pob partner yn y flwyddyn sydd i ddod.

7.4 Heriau o'n blaen yn y flwyddyn nesaf:

Er mwyn parhau i gyflawni disgwyliadau'r protocol aelodau, y brif her i CCG yw sefydlu diwylliant atebol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer o fewn y sefydliad.

## 8.0 Gweithio mewn partneriaeth ar eitemau tai o bwys strategol

Mae CCG yn aelod o Bartneriaeth Tai Gwynedd ac wedi cymryd rhan mewn amryw o faterion tai o bwys strategol, fel:

1. **Gweithredu'r Gofrestr Tai Cyffredin, Polisi Gosod Cyffredin a Thîm Opsiynau Tai** - fel sydd wedi ei nodi yn flaenorol yn yr adroddiad bu i'r Gofrestr Tai Cyffredin a'r Tîm Opsiynau Tai ddod i rym ym mis Medi 2012. Mae CCG wedi ymrwymo i sicrhau bod y prosiect yn llwyddiant, ei fod yn cynnig gwasanaeth effeithiol i reoli stoc tai cymdeithas yng Ngwynedd a'i fod hefyd yn cynnig amrywiaeth o opsiynau addas i ymgeiswyr i gwrdd â'u hanghenion tai.

2. **Digartrefedd** – Mae CCG yn parhau i ddarparu nifer o eiddo i'r Cyngor eu defnyddio i gartrefu ymgeiswyr digartref dros dro er mwyn cynorthwyo gyda goblygiadau statudol y Cyngor.

3. **Cyflogaeth leol** – ers trosglwyddo, pan drosglwyddwyd 170 aelod o staff o'r Cyngor o dan TUPE, mae CCG wedi cynyddu nifer o staff a gyflogir ymhellach ac, ar 31ain Mawrth 2013, yn cyflogi 292 o staff. Rhagwelir y bydd y nifer yn cynyddu eto dros y flwyddyn nesaf wrth i'r rhaglen fuddsoddi SATC gyrraedd ei frig. Hefyd, mae sawl cyfle cyflogaeth leol arall wedi eu sicrhau drwy Ddarparwyr Gwasanaeth SATC CCG (gweler adran 4 uchod).

4. **Darparu tai fforddiadwy** - Mae CCG wedi cyflwyno nifer o safleoedd datblygu i'w gynnwys yng Nghynllun Rhaglen Datblygu 2011-2014 (PDP). Cafodd y rhain yn y lle cyntaf eu gosod ar restr wrth gefn oherwydd ail flaenoriaethu'r PDP yn 2011-14 yn dilyn penderfyniad strategol a wnaed gan y Cyngor ond mae newidiadau pellach yn ystod y flwyddyn wedi dod a chynlluniau CCG yn eu blaen.
   Mae CCG yn falch o nodi ein bod yn bwriadu cychwyn ar ein cynllun adeiladu tai newydd cyntaf yn ystod 2013/14 ym Mhwllheli gyda chynllun pellach yn y Felinheli yn 2014/15. Mae'r cynlluniau hyn wedi eu cynnwys yng Nghynllun Rhaglen Datblygu Cyngor Gwynedd ac maent yn gymwys i dderbyn grant tai cymdeithasol. Mae trafodaethau yn parhau gyda'r Cyngor o ran cyfleoedd datblygu eraill.

5. **Strategaeth Pobl Hŷn** –
   i) Bu i CCG gwblhau adolygiad ar ran o'i stoc tai cysgodol a oedd yn anodd eu gosod a chyflwynwyd nifer o argymhellion i'r Bwrdd. Mae dau safle yn Nhre Gof, Caernarfon a Llain y Maen, Blaenau Ffestiniog wedi eu hail gategoreiddio fel ddim yn eiddo cysgodol er y bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i ymgeiswyr sydd yn cwrdd â chriteria tai cysgodol wrth osod yr eiddo hyn. Mae penseiri wedi eu comisiynu i ddatblygu cynlluniau penodol yn seiliedig ar flaenoriaeth wedi eu hadnabod yn ystod ymarferion ymgynghori cynharach a disgwylir gweld cynnydd ar y rhan fwyaf o'r cynlluniau yn ystod y flwyddyn.

ii) Yn dilyn prosiect peilot llwyddiannus yn ardal Bethesda, bu i Fwrdd CCG cymeradwyo argymelliadau i fabwysiadu model diwygiedig ar gyfer darparu gwasanaeth warden cysgodol i stad Maes y Garnedd ym Methesda a chytunwyd i ystyried cyfleoedd i foderneiddio'r gwasanaeth ar stadau eraill, fel bo'n berthnasol.  Bydd hyn yn galluogi'r gwasanaeth warden gael ei ddarparu i'r tenant priodol a fydd yn cael budd o'r Gwasanaeth sy'n seiliedig ar Ganlyniad Cefnogi Pobl heb orfod trosglwyddo i Gynllun Tai Cysgodol.  Bydd tenantiaid hŷn a bregus sy'n byw mewn stoc tai cyffredinol yn gymwys am y gwasanaeth yn dilyn asesiad o anghenion ar y cyd rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd a Chydlynwyr Tai Cysgodol CCG.

iii) Cymerodd CCG ran mewn Gweithgor Tai Cysgodol a oedd yn golygu gweithio gyda Tîm Strategol Tai Cyngor Gwynedd a chymdeithasau tai lleol eraill i gynllunio ar gyfer cartrefu poblogaeth hŷn y Sir yn y dyfodol.

6. **Addasiadau i'r Anabl** - Bu i CCG ddatblygu Polisi Addasiadau i ddarparu gwasanaeth addasiadau effeithiol a fydd yn cwrdd ag anghenion tymor hir ein tenantiaid yn well ac yn eu galluogi i barhau i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi cyn hired ag sy'n bosib. Sefydlwyd Panel Addasiadau ar y cyd gyda'r Cyngor i roi'r polisi ar waith. Roedd y Panel yn sicrhau cysondeb o ran penderfyniadau ariannu a blaenoriaethu ac yn creu ffordd well o reoli'r stoc tai ar gael a'r arian a oedd ar gael ar gyfer addasiadau.

7. **Diwygio Lles** - Roedd CCG yn falch o gael cyfrannu tuag at y tasglu aml sefydliadol a oedd yn cael ei gynnal gan y Cyngor gyda'r bwriad o baratoi pobl Gwynedd am y Diwygiad Lles.

   Bûm yn gweithio'n agos gydag adrannau perthnasol y Cyngor ar bob un o'r rhain.

## 9.0 Materion Gweithredol Eraill

### 9.1 Cefnogi Pobl

Yn ystod 2012/13 bu i CCG weithio’n agos gyda thîm Cefnogi Pobl y Cyngor i ddarparu'r dystiolaeth newydd oedd ei angen o dan ofyniad adolygedig Cymru ar gyfer gwasanaeth Cefnogi Pobl.  Rydym wedi gweithio ar ail fodelu gwasanaethau pobl hŷn i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu yn ôl yr angen ac nid oherwydd bod tenant yn byw mewn eiddo sy'n cael ei enwebu am y fath wasanaeth.  Mae gwaith yn cael ei wneud i gytuno ar gytundebau newydd a fydd yn cychwyn o Ebrill 2013.  Mae Gwasanaeth y Warden a'r gytundeb clychau argyfwng bellach yn seiliedig ar gytundeb grant mewn bloc.

Mae CCG yn pryderu am ddyfodol y grant cefnogi pobl gan fod yna drafodaeth ar leihau'r grant hwn ymhellach.  Mae’n achosi pryder i denantiaid hŷn CCG a thenantiaid bregus newydd sy'n cael budd o'r gwasanaeth cefnogi pobl 'cefnogaeth arnawf' sy'n eu cynorthwyo i ddatblygu'r sgiliau y maent eu hangen i gynnal eu tenantiaethau ac wrth wneud hynny, lleihau cost gwasanaethau a fyddant yn ei gael fel arall gan y Cyngor.

9.2 **Polisi newydd Llywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer Rhent Tai Cymdeithasol**

Bydd aelodau yn cofio o adroddiad blynyddol llynedd bod CCG wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar gynigion adolygedig Llywodraeth Cymru am bolisi newydd ar gyfer rent cymdeithasol yng Nghymru. Bwriad y polisi oedd cyflwyno strwythur rhent cymdeithasol cenedlaethol newydd wedi ei selio ar feini prawf tryloyw ac ar sail tystiolaeth fyddai'n cysoni rhenti rhwng Awdurdodau Lleol a darparwyr Cymdeithasau Tai ac yn gwneud hynny o fewn yr amlen rhent cymdeithasol cyfredol gan warchod tenantiaid rhag gweld cynnydd rent eithafol o ganlyniad i'r polisi.

Roedd y polisi adolygedig yn lleihau'r effaith ar incwm CCG, roedd pryderon yn parhau o ran ei weithredu a ddisgwyliwyd ym mis Ebrill 2013.

Yn ffodus, ni ddaeth y polisi i rym ym mis Ebrill 2013 ac mae CCG yn aros am wybodaeth bellach gan Lywodraeth Cymru o ran yr amserlen ddiweddaraf ar gyfer ei weithredu.

9.3 **Casglu Rhent/Rheoli Incwm**

Cynhaliwyd y lefel o ôl-ddyledion ac incwm a gasglwyd ar lefelau tebyg i'r flwyddyn flaenorol. Cyfanswm ôl-ddyledion fel canran o rent a ellir ei gasglu ar gyfer tenantiaid presennol oedd 1.85% ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13 o'i gymharu â 1.86% ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

Cynyddodd CCG adnoddau staff o fewn y tîm incwm rhent fel paratoad am effaith Diwygio Lles y Llywodraeth a newidiadau i'r System Budd-dal Tai a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2013. Mae monitro effaith y Diwygiad Lles yn faes blaenoriaeth i CCG yn y flwyddyn sydd i ddod.

9.4 **Eiddo Gwag**

Yn ystod y flwyddyn gweithredodd CCG ar benderfyniad i ddod ag eiddo gwag (ar wahân i rai anhraddodiadol ac eiddo cysgodol) i fyny i Safon Ansawdd Cymru tra eu bod yn wag. Tra bod hyn wedi arwain at well boddhad cwsmer ymysg tenantiaid a oedd yn symud mewn i dai gwag bu i gyfuniad o ffactorau arwain at amser troi tai i'w gosod salach na'r disgwyl ar gyfer y dangosydd perfformiad allweddol yma ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd hwn yn flaenoriaeth uchel i CCG ddatrys yn ystod Blwyddyn Ariannol 2013/14.

9.5 **Adolygu'r gweithlu mewnol (DLO)**

Bu i NorthgatePublic Service Solutions cynnal adolygiad manwl o'r Gwasanaeth Cynnal a Chadw ac adroddwyd eu darganfyddiadau i Fwrdd CCG ym mis Ionawr 2013. Cytunodd y Bwrdd i gadw'r Gwasanaeth Cynnal a Chadw yn fewnol yn ddarostyngedig i roi cynllun trawsnewid ar waith i greu gwasanaeth modern, cost effeithiol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer. Yr amserlen ar gyfer gweithredu'r cynllun yw 18 mis. Mae hwn yn faes blaenoriaeth allweddol ar gyfer CCG yn y flwyddyn sydd i ddod.

9.6 **Iechyd, Diogelwch, Ansawdd a'r Amgylchedd (IDAA)**

Bu i Ymgynghorwyr EC Harris gynnal adolygiad Iechyd a Diogelwch bôn a changen o'r sefydliad i gyd ar ran CCG ac adrodd ar hyn yn ystod y flwyddyn. Arweiniodd hyn at nifer o welliannau ac mae CCG bellach wedi rhoi system Iechyd, Diogelwch, Ansawdd a'r Amgylchedd (IDAA) gynhwysfawr ar waith i reoli materion iechyd, diogelwch ac amgylcheddol yn well ac i sicrhau cysondeb ac ansawdd yn ein holl brosesau. Mae CCG yn gobeithio cyrraedd achrediad ar gyfer y system yn y dyfodol agos.

9.7 **Rheoleiddio a Llywodraethu**

9.7.1 Asesiad Rheoleiddio Cymdeithas Dai (HARA)

Mae Rhan 2 y Mesur Tai (Cymru ) 2011 (y Mesur) sy'n diwygio Rhan 1 y Ddeddf Tai 1996 yn rhoi pwerau i Weinidog Cymru reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) yng Nghymru. Mae'r mesur yn rhoi mwy o bwerau rheoleiddiol ac ymyrryd i'r Gweinidog.

Mae'r Asesiad Rheoleiddio Cymdeithas Dai (HARA) sy'n cael eu cynnal gan y Tîm Rheoleiddio Tai ar ran Gweinidogion Cymru yn dilyn dull rheoleiddio yn seiliedig ar risg a cheisiant ddarganfod cryfderau a meysydd sydd angen eu gwella drwy gwrdd â 10 Canlyniad Cyflawni fel sydd wedi eu nodi yn y Fframwaith ar Gyfer Cymdeithasau Tai wedi eu Cofrestru yng Nghymru (y Fframwaith).

Mae'r Fframwaith yn amlinellu'r angen i Gymdeithasau Tai yng Nghymru baratoi Adroddiad Hunan Asesiad (HA) sydd i'w rannu gyda'r rheoleiddiwr. Pwrpas yr HA yw rhoi trosolwg i'r Bwrdd o sut mae'r Gymdeithas yn perfformio yn erbyn y Canlyniadau Cyflawni.

Wedi rhannu HA cyntaf CCG gyda'r rheoleiddiwr ddiwedd Chwefror 2012, cynhaliwyd yr HARA yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2012.

Yn dilyn yr HARA, aseswyd CCG fel eu bod angen;

**'lefel ganolig o gysylltiad rheolaethol'**

Roedd y Bwrdd yn teimlo bod canlyniadau'r HARA yn adlewyrchiad teg o CCG a'i fod wedi darparu canolbwynt ar gyfer y meysydd sydd angen eu blaenoriaethu wrth fynd ymlaen.

9.7.2 Asesiad Hyfywedd Ariannol

O dan adran 33A Deddf Tai 1996, mae gan y Gweinidog Cymru rym i reoleiddio LCC yng Nghymru o ran darpariaeth tai a materion sy'n ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol. Mae asesiadau rheolaethol a wneir yn dilyn dull o ganolbwyntio ar risg sy'n gwneud dyfarniad ar hyfywedd ariannol y Gymdeithas.

Yn dilyn adolygiad Gweinidog Cymru daethant i'r casgliad mai Dyfarniad Hyfywedd Ariannol CCG ar y 28 Mawrth 2013 oedd;

**“Pasio” – mae gan y Sefydliad adnoddau digonol i gwrdd â'i ymrwymiadau ariannol busnes sydd wedi ei ragdybio nawr ac yn y dyfodol.**

Mae'r Bwrdd yn ystyried fod hwn yn ganlyniad cadarnhaol ac mae'n adlewyrchiad da o gymdeithas o oed CCG.

9.7.3 Aelodaeth Bwrdd CCG

Mae Bwrdd CCG yn cynnwys 12 aelod sef 4 aelod tenant, 4 aelod annibynnol a 4 aelod etholedig o Gyngor Gwynedd.
Yn ystod blwyddyn 2012/13:

i) bu i un aelod tenant sefyll i lawr a daeth aelod tenant arall yn ei le
ii) rhoddodd Cyngor Gwynedd un aelod etholedig newydd ymlaen yn dilyn yr etholiadau lleol yn 2012, a
iii) bu i CCG parhau i brofi trafferthion wrth recriwtio aelod annibynnol i sedd wag ar y Bwrdd.

## 9.8 Rheoli Perfformiad

Fel rhan o ddymuniad CCG i sefydlu diwylliant atebol gan ganolbwyntio ar y cwsmer, mae CCG wedi buddsoddi mewn meddalwedd rheoli perfformiad, Covalent. Daeth i rym yn y cyfnod ac mae’n darparu sylfaen cadarn i reoli perfformiad ar lefel gorfforaethol gan gysylltu â nod ac amcanion o fewn y Cynllun Corfforaethol, Cynlluniau Gwella Gwasanaeth unigol a Risgiau ayb. Mi fydd y cysylltiadau hyn yn cael eu datblygu ymhellach yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf i unioni amcanion aelodau staff unigol gyda’u targedau perfformiad. Lansiwyd prosiect corfforaethol yn y cyfnod i sicrhau bod yr amcanion hyn yn cael eu cyrraedd o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.

## 9.9 Rheoli Rhaglen

Fel y gallai CCG reoli ei agenda datblygu cyfundrefnol yn iawn, mae dull rheoli prosiect wedi ei fabwysiadu. Mae hyn yn galluogi nifer o brosiectau (e.e. Diwygio Lles, Gofal Cwsmer, Rheoli Perfformiad ayb) i gael eu rheoli yn effeithiol a bod yna adnoddau digonol ar eu cyfer. Mae'r dull hwn wedi bod yn llwyddiannus i gyflawni sawl prosiect ar amser a sicrhau bod yna adnoddau digonol ar gyfer gwneud hynny.

## 9.10 Gofal Cwsmer

Canolbwyntiwyd yn benodol ar wella gofal cwsmer yn ystod y flwyddyn a arweiniodd at ddatblygu canolfan alwadau integredig lle mae staff penodol wrth law i ymateb i geisiadau tenantiaid ac ymholiadau am wasanaeth. Cydnabyddir nad ydym eto wedi cyrraedd y lefelau boddhad yr ydym yn ceisio eu cyrraedd ond rydym wedi ymrwymo i wella'r agwedd bwysig hon o'n gwasanaethau yn

barhaus.

## 10.0 Casgliad

Yn ystod trydedd blwyddyn CCG o weithredu rydym wedi gweld darparwyr gwasanaeth yn sefydlogi gan arwain at gynnydd sylweddol mewn gwaith buddsoddi SATC ar safle. Bu i wariant SATC gynyddu i £28.8m yn 2012/13 o gymharu â £16.7m yn y flwyddyn flaenorol.

Mae hefyd yn braf gweld nifer o staff CCG yn tyfu i 292 yn cael eu cyflogi ar ddiwedd Mawrth 2013. Mae hyn, ynghyd â nifer fawr o bobl un ai yn byw yng Ngwynedd neu o fewn y dalgylch yn cael eu cyflogi gan Ddarparwyr Gwasanaeth CCG ar SATC a nifer uchel o hyfforddai yn cael eu cyflogi yn cyflawni amcan strategol CCG o uchafu buddsoddiad SATC yn economi Gwynedd.

Fodd bynnag, roedd y gwariant yn llai na'r hyn yr oeddem wedi rhagweld ei wario ar gyfer y flwyddyn o tua £4.7m oherwydd y rhesymau sydd wedi eu nodi yn yr adroddiad ond mae CCG yn hyderus y gellir gwneud yn iawn am y diffyg erbyn diwedd y rhaglen ym mis Mawrth 2015.

Fel ac y mae mwy a mwy o denantiaid yn cael budd o'r rhaglen wella SATC ac o ganlyniad i rai o'r newidiadau yr ydym wedi eu gwneud i'n gwasanaethau, mae profiad ein cwsmeriaid o CCG yn parhau i wella. Fodd bynnag, mae yna lawer iawn o waith i'w wneud o hyd i barhau i newid y ffordd yr ydym ni'n gweithio a sefydlu diwylliant o fewn y sefydliad sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, sy'n rhoi grym ac yn atebol.  Mae hyn yn hynod o wir am ein gwasanaeth cynnal a chadw a fydd yn profi gweithredu cynllun trawsnewid a gwella yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Blaenoriaethau CCG yn ystod y flwyddyn sydd i ddod yw ymateb i effaith y Diwygiad Lles, cynnal allbynnau SATC i'r lefelau gofynnol gan gadw staff ar gytundebau tymor penodol, parhau i wella gwasanaethau yn enwedig y gwasanaeth cynnal a chadw a chynhyrchu strategaeth ddatblygu sy'n diffinio dyhead CCG tuag at Adeiladu Tai Newydd o fewn cyfamodau'r Cynllun Busnes.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 15 Hydref 2013 |
| **TEITL** | Cyflwyno Sgôp Ymchwiliad Craffu Polisi Cludiant Addysg Bellach ôl-16 Gwynedd |
| **AWDUR** | Debbie A W Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | • Cyflwyno sgôp ymchwiliad mewn ymateb i ddyheadau'r aelodau i astudio'r polisi cludiant addysg bellach ôl-16 Gwynedd mewn rhagor o fanylder<br><br>• Enwebu aelodau o blith y pwyllgor i gymryd rhan yn yr ymchwiliad |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynwyd adroddiad ar gludiant i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 14 Mai 2013.

1.2 Yn sgil trafodaethau a gynhaliwyd ar y mater yn y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 14 Mai 2013, ac wedi hynny mewn cyfarfodydd anffurfiol rhwng aelodau a swyddogion, ac yn y Cyfarfod Paratoi ar 12 Medi 2013, cymeradwywyd y bwriad o gynnal Ymchwiliad Craffu.

1.3 Bydd yn hanfodol sicrhau cydweithrediad Coleg Llandrillo Cymru, safle Menai a Meirion Dwyfor i'r ymchwiliad craffu hwn.

1.4 Cyflwynir sgôp drafft ar gyfer yr ymchwiliad yn Atodiad 1.

## 2. SGÔP YMCHWILIAD CRAFFU A'R CAMAU NESAF

2.1 Yn Atodiad 1 cyflwynir drafft o sgôp ar gyfer cynnal ymchwiliad craffu i bolisi cludiant addysg bellach ôl-16 Gwynedd.

2.2 Gofynnir i'r aelodau ystyried y cwestiynau a gyflwynir fel rhan o'r sgôp, a chynnig unrhyw gwestiynau ychwanegol y dylai'r ymchwiliad geisio roi sylw iddynt.

2.3 Yn dilyn cytuno ar sgôp yr ymchwiliad - a fydd yn cychwyn wedi i'r ymchwiliad Balchder Bangor ddod i ben ym mis Rhagfyr - gofynnir i'r aelodau enwebu cynrychiolwyr o blith y Pwyllgor i gymryd rhan yn yr ymchwiliad polisi cludiant addysg bellach ôl-16 Gwynedd.

2.4 Gellir cadarnhau mai Debbie A W Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fydd swyddog arweiniol yr ymchwiliad craffu hwn.

**Cefndir**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 14 Mai 2013 ar gludiant.

Yn sgil trafodaethau a gynhaliwyd ar y mater yn y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 14 Mai 2013, ac wedi hynny mewn cyfarfodydd anffurfiol rhwng aelodau a swyddogion, ac yn y Cyfarfod Paratoi ar 12 Medi 2013, cymeradwywyd y bwriad o gynnal Ymchwiliad Craffu.

Bydd yn hanfodol sicrhau cydweithrediad Coleg Llandrillo Cymru, safle Menai a Meirion Dwyfor i'r ymchwiliad craffu hwn.

**Pwrpas yr Ymchwiliad**
Bydd yr ymchwiliad yn anelu i ateb y prif gwestiynau a ganlyn:

a) Sut mae polisi cludiant addysg ôl-16 Gwynedd yn cymharu gyda pholisïau cyffelyb mewn siroedd eraill?
b) A yw polisi cludiant addysg ôl-16 yn gyson i ddysgwyr ymhob rhan o'r sir?
c) A yw polisi cludiant ôl-16 yn sicrhau tegwch i ddysgwyr sydd yn gorfod teithio ymhellach i ddilyn cyrsiau o'u dewis / ble nad oes darpariaeth ar gael yn lleol?
d) Pa mor hygyrch yw'r ddarpariaeth cludiant i'r dysgwr:
   - yn ystod oriau craidd 09:00 -18:00
   - y tu hwnt i oriau craidd 18:00 - 21:00
e) Pa mor fforddiadwy yw cludiant addysg ôl-16 i ddysgwyr o aelwydydd incwm isel?

**Effaith**
Os byddwn yn llwyddiannus, bydd yr Ymchwiliad Craffu yn:

- Llunio argymhellion clir yn seiliedig ar dystiolaeth er ystyriaeth gan yr Aelod Cabinet
- Rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw rwystrau a sut i'w datrys

**Cyfnod yr Ymchwiliad**

| | |
|---|---|
| Cychwyn yr ymchwiliad | Rhagfyr 2013 |
| Diwedd yr ymchwiliad | Mai 2014 |
| Adroddiad i sylw'r Pwyllgor Craffu Cymunedau | Mehefin 2014 |
| Adroddiad oddi wrth craffu at y Weithrediaeth | Gorffennaf 2014 |

**Rhaglen**

Amlinelliad o'r prif gamau a chyfarfodydd.
Bydd gofyn i'r aelodau wneud gwaith ychwanegol rhwng y cyfarfodydd.

| | |
|---|---|
| 1 | |
| 2 | Nodiadau Briffio'r aelodau gan Swyddogion Craffu:<br>• Cynlluniau/strategaethau/polisïau perthnasol<br>• Deddfwriaeth / gofynion statudol os yn berthnasol<br>• Enghreifftiau o ddarpariaeth mewn ardaloedd eraill<br>• Tystiolaeth ymgynghori<br>• Niferoedd / proffiliau defnyddwyr<br>• Incwm / gwariant<br>• Crynodeb o unrhyw adroddiadau archwilio mewnol / allanol<br>• Cyswllt gyda'r Strategaeth Gymunedol<br>• Cyswllt gyda Chynllun Strategol y Cyngor |
| 3 | Sesiwn Gynllunio<br>Ystyried y sefyllfa a pha gamau i'w cymryd nesaf. |
| 4 | Casglu sylwadau gan staff gweithredol perthnasol y Cyngor a phartneriaid allweddol allanol. |
| 5 | Casglu sylwadau gan:<br>• Asiantaethau<br>• Defnyddwyr<br>• Trigolion |
| 6 | Sesiwn Gynllunio<br>Ystyried y wybodaeth a gafwyd hyd yma, a chynllunio gweddill y rhaglen waith. |
| 7 | Trefnu ymweliad ag ardal arall os yn briodol |
| 8 | Sesiwn cwestiynu<br>• Aelod Cabinet Addysg<br>• Pennaeth Adran Addysg |
| 9 | Dadansoddiad<br>• Ystyried a chrynhoi'r wybodaeth a phrofiadau<br>• Cwestiynu'r Aelod Cabinet ymhellach os oes angen<br>• Cytuno'r prif argymhellion ar gyfer yr adroddiad a'r ffordd ymlaen |
| 10 | Pwyllgor Craffu i ystyried yr adroddiad drafft a'r argymhellion |

**Eitem 8**

| Blaenraglen Pwyllgor Craffu Cymunedau Medi 2013 — Awst 2014 | |
|---|---|
| 1. | Trefniadau Monitro a Gorfodaeth Meysydd Carafanau |
| 2. | Rheoli Carafanau sy'n parcio ar diroedd y Cyngor heb ganiatad |
| 3. | Denu a Chadw Busnesau yn y Sir |
| 4. | Gwella Stoc Tai Un Llofft |
| 5. | Effaith PolisIau cynllunio ar hyfywedd Cymunedau |
| 6. | Hafan Pwllheli — ystyried trosglwyddo'n 61 i gwmni preifat |
| 7. | Grymuso Cymunedau |
| 8. | Ffioedd Parcio |
| 9. | Defnydd o Lwybrau Beicio a Llwybrau Cerdded |
| 10. | Parc Glynllifon a Pharc Padarn |
| 11. | Parthau Cadwraeth Morol |
| 12. | Cynllun Prentisiaeth |
| 13. | Twristaeth — effaith ar yr economi |
| 14. | Cludiant |
| 15. | Trosedd ac Anrhefn |
| 16. | Antur Aelhaearn |
| 17. | Cartrefi Cymunedol Gwynedd |
| 18. | Digartrefedd — Hostel Noddfa, Deiniolen |